




barcud

TÂN

Gwnewch Eich Cartref Yn Lle Diogel



Sicrhewch fod eich larymau mwg yn gweithio

Bob mis, pwyswch y botwm ar eich larymau mwg i sicrhau eu bod yn dal i weithio.

Os byddwch yn pwysu'r botwm ac os nad oes unrhyw sŵn, dylech ffonio Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid Barcud yn syth ar 0300 111 3030.

Rhowch brawf ar eich larymau mwg bob mis




Yn y gegin

Cadwch blant allan o'r gegin pan fyddwch yn coginio; gallent droi sosban drosodd a brifo.

Cadwch blant draw o'r popty

Cadwch blant allan o'r gegin pan fyddwch yn coginio



Yn y gegin


Arhoswch yn y gegin os ydych yn defnyddio saim neu olew i goginio, oherwydd mae'n hawdd i'r pethau hyn fynd ar dân.

Os bydd y badell yn gorboethi ac yn dechrau mygu, diffoddwch y popty a gadewch i'r badell oeri.

Peidiwch byth â rhoi dŵr ar olew poeth neu olew sy'n llosgi.

Peidiwch byth â throi eich cefn ar olew sy'n coginio

Gwylwch y badell bob amser wrth ddefnyddio olew i goginio



Defnyddio plwgiau'n ddiogel


Os byddwch yn rhoi gormod o blygiau mewn un soced, gallai ddechrau tân.

Un plwg ym mhob soced sydd orau.

Mae hynny'n bwysig iawn ar gyfer peiriannau megis peiriannau golchi dillad a thanau trydan sy'n defnyddio llawer o drydan.

Do not put too many plugs into a socket

One plug per socket is best




Sicrhewch nad oes unrhyw blygiau a gwifrau wedi torri

Sicrhewch nad oes unrhyw blygiau'n boeth neu nad oes marciau tywyll arnynt.

Sicrhewch nad oes unrhyw wifrau'n rhydd neu wedi torri.

Os dewch chi o hyd i rai;

- Tynnwch y plwg allan o'r soced
- Gofynnwch i drydanwr ei wirio




Sigaréts

Mae sigaréts yn dechrau llawer o danau. Ar ôl gorffen sigarét, sicrhewch ei bod wedi'i diffodd yn llwyr.

Peidiwch â gadael sigaréts wedi'u cynnau

Sicrhewch fod sigaréts wedi'u diffodd yn llwyr



Canhwyllau

Rhowch ganhwyllau mewn teclynnau addas i'w dal. Cadwch ganhwyllau draw oddi wrth unrhyw beth a allai fynd ar dân, e.e. lleni neu bapurau.

Peidiwch â gadael canhwyllau heb neb i ofalu amdanynt

Sicrhewch fod canhwyllau mewn teclynnau addas i'w dal



Ffoniwch 999 i gysylltu â'r gwasanaeth tân ac achub

Peidiwch â cheisio diffodd y tân ar eich pen eich hun

Ffoniwch 999 a gofynnwch am y gwasanaeth tân ac achub.

Byddwch yn barod i ddweud ble'r ydych yn byw.

Pethau i'w gwirio cyn mynd i'r gwely

- Caewch bob drws mewnol. Mae drysau sydd wedi'u cau yn arafu tân.
- Tynnwch blygiau pethau sy'n defnyddio trydan allan o'u socedi, ar wahân i blygiau'r oergell a'r rhewgell.
- Sicrhewch fod y popty wedi'i ddiffodd.
- Peidiwch â gadael y peiriant golchi ymlaen dros nos.
- Diffoddwch unrhyw wresogyddion.
- Rhowch giard o gwmpas y lle tân.
- Sicrhewch nad oes dim yn eich atal rhag cyrraedd y drysau i fynd allan.
- Rhowch allweddi mewn man lle gall pawb ddod o hyd iddynt.
- Diffoddwch ganhwylau a sigarêts yn iawn.